TORIAD TRYDAN? FFONIWCH 105

Gwybodaeth bwysig
Paratoi ar gyfer toriad pŵer

SP Energy Networks

Toriadau pŵer ac Argyfyngau

TORIAD TRYDAN? FFONIWCH 105

Ffoniwch 105 am ddim i roi gwybod am doriad pŵer, dim ots i bwy rydych chi'n talu eich bil.

Os byddwch chi'n sylwi ar ddifrod i bethau fel is-orsafoedd neu offer trydanol arall, ffoniwch ni ar **105** ac fe wnawn ni'n siŵr bod popeth yn ddiogel.

Os gwelwch chi linellau uwchben neu geblau wedi'u difrodi, cadwch draw a **ffonio 999** ar unwaith.

I gael help i aros mewn gwesty neu i gael bwyd poeth mewn storm neu doriad pŵer, ffoniwch 105 neu hawlio'r costau'n ôl.

Sganiwch y cod QR neu ffoniwch ni i ddysgu sut i wneud hynny.

Paratoi ar gyfer toriad pŵer

Dyma rai pethau y gallwch eu gwneud i baratoi ar gyfer toriad pŵer:

1. Cadwch y rhif 105 yn eich ffôn neu ysgrifennwch y rhif i lawr yn rhywle diogel.
2. Cadwch dortsh a batris newydd gerllaw.
3. Gwefrwch eich ffôn ac unrhyw becynnau pŵer.
4. Cadwch flancedi ychwanegol neu ddillad cynnes wrth law.

Rhagor o wybodaeth: spenergynetworks.co.uk/toriadpŵer

Ydych chi'n defnyddio offer meddygol gartref?

Os ydych chi neu rywun yn eich cartref yn defnyddio offer meddygol sy'n rhedeg ar drydan, sicrhewch bod ei systemau wrth gefn yn gweithio'n iawn, a bod ganddo fatri wrth gefn sy'n para o leiaf 3 awr yn ystod toriad pŵer.

Os ydych chi'n poeni am beth fyddai'n digwydd i'ch offer yn ystod toriad pŵer, siaradwch â'ch darparwr gofal iechyd.

Dylech ymuno â'n Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth i gael cymorth ychwanegol yn ystod toriad pŵer.

Cymorth i Fusnesau

Rydyn ni'n gwybod pa mor bwysig yw trydan dibynadwy i'ch busnes. I'ch helpu i baratoi ar gyfer toriad trydan, mae ein pecyn cymorth busnes ar gael yma:

spenergynetworks.co.uk/businesswinterguide

Gwybodaeth amdanom ni

Rydyn ni'n gofalu am y rhwydwaith trydan ar draws yng **Canol** a **De'r Alban, Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd** a **Chanolbarth Cymru** a **Gogledd Swydd Amwythig**.

Rydyn ni'n cadw'r pŵer i lifo i dros **3.5 miliwn o gartrefi a busnesau.**

Mae ein **cyngor yn rhad ac am ddim** ac **ar gael 24/7.**



Cadw'n ddiogel yn ystod ymweliadau cartref

Os oes angen i aelod o'n tîm neu gontractwr ymweld â'ch cartref, dyma sut mae gwneud yn siŵr mai ni sydd yno:

1. Byddan nhw'n esbonio pam eu bod nhw yno. Os ydych chi'n ansicr, siaradwch drwy'r drws.
2. Cymerwch eich amser, ni fydd ein staff yn eich rhuthro.
3. Byddan nhw'n dangos cerdyn adnabod i chi gyda'u llun a'u henw. Gofynnwch am gael ei weld drwy'r ffenestr neu'r blwch llythyrau.
4. Os nad ydych chi'n siŵr, ysgrifennwch eu henwi lawr a'i wirio drwy ein ffonio ni ar **0330 10 10 444**.
5. Defnyddiwch gadwyn drws os oes gennych un. Os nad yw rhywbeth yn teimlo'n iawn, peidiwch ag agor y drws.

Eisiau tawelwch meddwl ychwanegol? Sefydlwch gyfrinair ar gyfer ymweliadau cartref.

Ffoniwch ni: **0330 10 10 444**

Sut ydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth?

Rydyn ni'n cymryd eich data personol o ddifrif ac yn diogelu eich gwybodaeth bersonol.

Pan fyddwch chi'n cofrestru ar gyfer ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth, byddwn yn casglu enwau, manylion cyswllt a gwybodaeth yn ymwneud â chyflyrau meddygol neu anghenion cymorth pobl berthnasol yn eich cartref.

Byddwn yn parhau i weithredu ein sail gyfreithlon dros rannu yn ôl amodau Buddiant Dilys a Buddiant Sylweddol (SPI) i'r Cyhoedd.

Rydym yn rhannu'r wybodaeth hon â chwmnïau cyfleustodau eraill i'ch helpu i gael y cymorth sydd ei angen arnoch os bydd gwasanaethau eraill yn cael eu heffeithio.

Gallwch ddysgu mwy yn: **spenergynetworks.co.uk/privacy**

Neu cysylltwch â ni:
0330 10 10 154
dp@spenergynetworks.co.uk

Toriadau pŵer brys oherwydd prinder trydan

Pwy sy'n gwneud beth?

Mae Gweithredwr System Drydan National Grid (NGESO) yn cydbwyso'r cyflenwad a'r galw am ynni, ac yn sicrhau bod digon o drydan i bob cartref a busnes yn y Deyrnas Unedig.

Gall SP Energy Networks (a gweithredwyr rhwydwaith eraill) gael cyfarwyddyd gan NGESO i weithredu toriadau pŵer brys os nad oes digon o drydan i ateb y galw. Mae'r gyfraith yn mynnu ein bod ni'n gwneud hyn.

Yr hyn y mae angen i chi ei wybod

Mae toriadau pŵer brys ar draws y Deyrnas Unedig yn annhebygol a bydden nhw ond yn digwydd petai prinder eithafol o nwy neu drydan i ateb y galw.

Os oes toriad pŵer brys, efallai y byddwch chi'n colli pŵer am oddeutu tair awr ar y tro. Mae'n bosibl y gallech chi golli pŵer fwy nag unwaith.

Os bydd angen toriad pŵer brys, bydd system rota'n cael ei rhoi ar waith ar draws y wlad. Drwy wneud hynny, fydd pawb ddim yn colli pŵer ar yr un pryd.

Mae'r wlad wedi'i rhannu yn flociau, a fydd yn cael eu defnyddio i greu'r system rota. Gallwch weld ym mha floc mae eich ardal chi drwy roi eich cod post yn: **powercut105.com**

Gallwch ei weld hefyd ar eich bil trydan.

Os bydd toriad pŵer brys yn digwydd, bydd ymgyrch gyfathrebu genedlaethol yn cael ei chynnal a bydd gwybodaeth ar gael yn: **powercut105.com**

Efallai na fyddwn yn gallu rhoi gwybod i chi am y toriad pŵer brys cyn iddo ddigwydd, mae'n dibynnu ar faint o rybudd gawn ni. Dydyn ni ddim yn gallu darparu generaduron na systemau wrth gefn eraill oherwydd maint y digwyddiad.

Mae'n bwysig eich bod yn barod ar gyfer digwyddiadau fel hyn.

Pethau i'w nodi: Byddai toriadau pŵer brys yn effeithio ar ein HOLL gwsmeriaid, gan gynnwys y rhai sydd wedi cofrestru am ddim ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth.

Rhowch eich enw yn rhad ac am ddim ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth

Dydy toriadau pŵer ddim yn digwydd yn aml, ond pan fyddan nhw'n digwydd, rydyn ni'n cynnig cymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Gallwch gofrestru os ydych chi:

- Dros 60 oed
- Ag anghenion cyfathrebu arbennig
- Ag anabledd
- Yn dibynnu ar drydan ar gyfer offer Meddygol neu offer cartref
- Bod â Phlant dan 5 oed
- Mae gennych chi salwch cronig
- Angen cefnogaeth tymor byr neu'n teimlo eich bod angen ychydig o help ychwanegol.

Sut mae'n helpu?
Byddwn yn cysylltu â chi ar unwaith os byddwn yn gwybod am broblem yn eich ardal. Bydd gennych rif penodol 24/7 i gysylltu â ni a mynediad at bartneriaid cymorth ychwanegol. Pan fyddwch yn cofrestru, byddwn yn anfon pecyn croeso atoch gyda chyngor defnyddiol.

Sut i gofrestru
Llenwch ffurflen gyflym ar-lein:
spenergynetworks.co.uk/psr
Ffoniwch ni: 0330 10 10 167

Sut mae cysylltu â ni

Cwsmeriaid â nam ar eu clyw:

Cyfnewid testun ar gyfer Toriadau Pŵer a Namau:

Canol a De'r Alban:
18001 0800 092 9290

Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Swydd Amwythig:
18001 0800 001 5400

Cyfnewid testun ar gyfer Cymorth Cyffredinol: 18001 0330 10 10 444

Rydyn ni'n cynnig gwasanaeth dehongli Iaith Arwyddion Prydain drwy Convo. Dewch o hyd i ni ar gyfeiriadur Convo.

Cwsmeriaid â nam ar eu golwg:

Ffoniwch **0330 10 10 167** i gael ein taflenni neu ddogfennau mewn Braille neu brint bras.

Angen cyfieithydd?

Rydyn ni'n cynnig gwasanaeth am ddim mewn dros 100 o ieithoedd, ffoniwch **0330 10 10 444**.

Gwefan hygyrch

Mae ein botwm hygyrchedd yn gadael i chi addasu maint y testun a chyfieithu'r safle i 100 o ieithoedd.

Gallwch ysgrifennu atom hefyd

Canol a De'r Alban:
SP Energy Networks,
Customer Service,
320 St Vincent Street,
Glasgow G2 5AD

Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Swydd Amwythig:
SP Energy Networks,
Customer Service,
3 Prenton Way,
Prenton CH43 3ET

Neu siaradwch ag aelod o'r tîm os ydych chi'n eu gweld nhw'n gweithio yn eich ardal chi, maen nhw'n hapus i helpu.

Mae'r ddogfen hon yn bodloni gofynion Amodau 8, 9 a 10 y Drwydded Dosbarthu i gyhoeddi Datganiad ar y Gwasanaeth Ymholiadau Diogelwch Cyflenwadau.

Efallai fod nifer fach o eiddo sydd heb eu cysylltu â rhwydwaith SP Energy Networks. Os nad ydych chi'n siŵr, mae'r wybodaeth hon ar gael wrth ymyl eich mesurydd fel arfer, neu gallwch edrych ar-lein.

SCP9291 JUNE 25